Lleisiau dros Newid Cymru – Papur Briffio

Etholiadau Llywodraeth Leol 2012

Bwriedir cynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ar **3ydd Mai 2012** - byddwch yn pleidleisio am eich Cynghorwyr Sir ar eich prif gyngor unedol yn ogystal â'ch Cynghorwyr Tref/Cymuned. Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud ag etholiadau i'ch prif gyngor unedol. Mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae wrth gynrychioli pobl leol, arwain y gymuned leol a chyflenwi gwasanaethau lleol allweddol fel addysg, gwasanaethau cymdeithasol, tai, trafnidiaeth, llyfrgelloedd, hamdden, gwastraff, cynllunio, ailgylchu a gwasanaethau amgylcheddol. Mae grwpiau trydydd sector a llywodraeth leol yng Nghymru yn rhannu diddordeb yn lles yr ardaloedd lle maent yn gweithio ac wrth rymuso pobl leol i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w cymunedau. Ceir nifer o enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth rhwng y sector a llywodraeth leol a chynghorau lleol yw un o arianwyr gwaith y trydydd sector.

Cynhelir yr etholiadau hyn bob 4 blynedd a byddant yn etholiadau cyngor llawn gyda chystadleuaeth ar gyfer pob sedd (yn wahanol i rai ardaloedd eraill y DU lle caiff naill ai traean neu hanner y cyngor ei ailethol yn fwy rheolaidd).

Mae rheolaeth wleidyddol y 22 awdurdod unedol yn amrywio o ardal i ardal. Ceir clymbleidiau a chynghreiriau (lle mae grwpiau gwleidyddol wedi uno); cynghorau a reolir yn syml gan blaid y mwyafrif; ardaloedd a reolir gan grŵp o bobl Annibynnol; ardaloedd a reolir gan bleidiau lleiafrifol; ac ardaloedd lle ni cheir rheolaeth gyffredinol. Yn yr ardaloedd cyngor hyn, mae gan y cabinet neu fwrdd gydbwysedd gwleidyddol yn gymesur â'r nifer o seddi sydd gan bob grŵp gwleidyddol gwahanol. Ar hyn o bryd, mae gennym hyd yn oed un ardal, Cyngor Sir Ynys Môn, lle mae Llywodraeth Cymru wedi ymyrryd i benodi grŵp o 5 o Gomisiynwyr i redeg y Cyngor yn lle'r swyddog gweithredol gwleidyddol blaenorol (yn unol ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol). Dyma'r tro cyntaf yn hanes llywodraeth leol Cymru i bwerau gweithredol unrhyw gyngor gael eu diarddel yn y ffordd hon a'r tebygolrwydd yw y bydd yn troi'n ôl at fodel gweithredol ar ôl etholiadau 2012. Y cyngor arall yng Nghymru sydd â threfn lywodraethu wahanol yw Gwynedd. Ar hyn o bryd mae ganddo fwrdd sydd â chydbwysedd gwleidyddol yn hytrach na model gweithredol yn seiliedig ar grŵp gwleidyddol yn dominyddu, ond bydd yn rhaid i hyn newid pan ddaw deddfwriaeth llywodraeth leol newydd i rym sy'n gwahardd y drefn hon.

Mae'n werth nodi nad yw gwleidyddiaeth pleidiau ar lefel leol o reidrwydd yn trosi'n hawdd o'r blwch pleidleisio i reolaeth wleidyddol yn y cyngor. Nid yw'r ffaith bod cynghorydd yn ymwneud â phlaid wleidyddol arbennig, neu ddim yn ymwneud ag unrhyw blaid mewn gwirionedd, o reidrwydd yn cael ei adlewyrchu yn y *grwpiau* gwleidyddol a gaiff eu creu o fewn llywodraeth leol - cyfansoddiad y grwpiau a sut maent yn ffurfio cysylltiadau gyda grwpiau eraill sy'n penderfynu ar y rheolaeth wleidyddol.

Er enghraifft, os caiff 35 o seddi mewn ardal gyngor eu hennill gan ymgeiswyr Annibynnol, efallai y byddant yn uno i ffurfio grŵp Annibynnol, neu eu rhannu i sawl carfan annibynnol, neu ymochri gydag un neu fwy o'r prif bleidiau gwleidyddol, neu benderfynu peidio ymochri gydag unrhyw grŵp. Neu beth am ystyried enghraifft go iawn o Gyngor Sir a Dinas Abertawe lle gallwch weld o'r tabl isod bod 22 o gynghorwyr y Democratiaid Rhyddfrydol wedi'u hethol. Os edrychwch ar wefan Abertawe a chwilio drwy eu grwpiau gwleidyddol cewch hyd i bum grŵp gwleidyddol gwahanol, ac nid oes un ohonynt yn grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol. Yn hytrach mae ganddynt grŵp y Ceidwadwyr, grŵp Llafur, grŵp o'r enw Cymunedau Abertawe ac un arall o'r enw Gweinyddiaeth Abertawe a rhywun nad yw wedi ymochri ag unrhyw grŵp. Dim ond wrth edrych yn fanylach y sylwch ble mae'r holl Ddemocratiaid Rhyddfrydol o fewn system y grwpiau. Maent oll yn rhan o grŵp Gweinyddiaeth Abertawe sydd â 36 o aelodau. Mae'r cynghorwyr eraill yn y grŵp hwnnw yn cynnwys 13 aelod Annibynnol a phleidiau bach a'r un cynghorydd Plaid Cymru, a'r grŵp hwn sydd â rheolaeth wleidyddol dros y cyngor mewn gwirionedd. Ond gwelwch hefyd o'r tabl isod bod 17 o gynghorwyr Annibynnol a chynghorwyr o bleidiau eraill yn Abertawe a hyd yn hyn rydym ond wedi cyfrif am 13 ohonynt, felly ble mae'r pedwar arall? O ran grwpiau, mae tri ohonynt wedi dod ynghyd i ffurfio grŵp Cymunedau Abertawe ac mae 1 yn parhau heb ymochri. Mae hyn yn egluro pam nad yw mor syml ag y gallai fod i bennu rheolaeth wleidyddol wrth ddim ond edrych ar niferoedd y pleidiau. Mae'n rhaid i chi edrych yn fanylach a dod o hyd i ba grwpiau gwleidyddol sydd wedi'u ffurfio.

Ar lefel wleidyddol leol, mae gwleidyddion Annibynnol yn hynod o ddylanwadol. Maent ganddynt fwy o seddi nag unrhyw un o'r 4 prif blaid wleidyddol arall yng Nghymru, ar hyn o bryd mae gan bobl Annibynnol tua 30% i'r seddi ac mae gan Lafur, Plaid Cymru, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol tua 27%, 16%, 13% a 12%, yn y drefn honno. Cymharwch hwn gyda'r darlun gwleidyddol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru lle nad oes un AC annibynnol ar hyn o bryd.

Dengys y tabl isod gyfansoddiad gwleidyddol presennol y 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru a phwy sydd â rheolaeth wleidyddol. Fodd bynnag, nid yw'n dangos y grwpiau gwleidyddol, dim ond nifer y cynghorwyr sy'n gysylltiedig â'r prif bleidiau gwleidyddol neu sy'n Annibynnol neu Arall (pleidiau lleiafrifol).

Dim ond cipolwg a geir o'r wybodaeth hon, felly efallai na fydd yn gwbl gywir ar gyfer pob awdurdod ar bob adeg - gyda dros 1250 o gynghorwyr etholedig, mae'r darlun yn newid drwy'r amser wrth i swyddi gwag godi ac i wrthgilio gwleidyddol achlysurol ddigwydd. Mae nifer y cynghorwyr ym mhob cyngor yn amrywio yn ôl maint a phoblogaeth ardal y cyngor. Bydd gan bob ward cyngor o leiaf un cynghorydd etholedig, ond bydd gan y wardiau sydd â phoblogaeth fwy dwys mwy nag un cynghorydd (hyd at 3). I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ardal llywodraeth leol benodol, ewch i'w gwefan lle gallwch ddod o hyd i wybodaeth am eu cyfansoddiad (sy'n rhoi manylion faint o gynghorwyr y dylent gael) a dylech fod yn gallu chwilio am wybodaeth am gynghorwyr fesul enw neu ward ar rai gwefannau gan grwpiau gwleidyddol. Cliciwch ar enw'r cyngor isod a bydd yn eich tywys i'w gwefan.

Cyngor	Nifer y Cynghorwyr	Pwy sy'n rheoli?	Ceidwadwyr	Llafur	Democratiaid Rhyddfrydol	Plaid Cymru	Annibynnol neu arall
Blaenau Gwent	41	Dim Rheolaeth Gyffredinol	0	14	2	0	25
Pen-y-bont ar Ogwr	54	Lleiafrif Llafur (a 3 o bobl annibynnol)	6	27	6	1	14
Caerffili	72	Clymblaid Plaid Cymru a Lleiafrif Annibynnol	0	29	0	32	11
Caerdydd	75	Clymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru	17	13	35	7	3
Sir Gaerfyrddin	74	Clymblaid Annibynnol a Llafur	0	11	0	30	33
Ceredigion	42	Clymblaid Annibynnol a Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol	0	1	9	20	12
Conwy	58	Clymblaid Plaid Cymru ac Annibynnol a Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol	19	7	5	14	13
Sir Ddinbych	47	Dim Rheolaeth Gyffredinol	18	7	1	8	13
Sir y Fflint	69	Clymblaid Annibynnol a'r Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru	9	22	9	1	28
Gwynedd	75	Lleiafrif Plaid Cymru (ond bwrdd gwleidyddol gytbwys)	0	4	5	35	31
Sir Fôn	40	5 Comisiynydd a benodwyd gan	0	5	0	8	27

		Lywodraeth Cymru					
Merthyr Tudful	33	Clymblaid pob plaid dan arweiniad annibynnol	0	10	4	0	19
Sir Fynwy	43	Y Ceidwadwyr	28	6	5	4	
Castell-nedd Port Talbot	64	Llafur		39	3	11	11
Casnewydd	50	Clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol	18	21	9	0	2
Sir Benfro	60	Annibynnol	5	5	0	5	45
Powys	71	Annibynnol	9	4	14	1	43
Rhondda Cynon Taf	75	Llafur	1	48	3	18	5
Abertawe	72	Clymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru ac Annibynnol	5	27	22	1	17
Torfaen	44	Llafur	5	18	2	3	16
Bro Morgannwg	47	Y Ceidwadwyr	25	13	0	6	3
Wrecsam	52	Clymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol ac Annibynnol	5	12	12	4	19

Os hoffech ragor o wybodaeth am etholiadau Llywodraeth Leol Cymru 2012, mae CLILC wedi creu canllaw o'r enw Cynghorydd 2012 ar gyfer ymgeiswyr posibl, sy'n cynnwys gwybodaeth am yr hyn mae cynghorwyr yn ei wneud, y taliadau maent yn eu derbyn a beth sydd angen iddynt wneud os oes ganddynt ddiddordeb sefyll mewn etholiad. Mae hefyd yn rhoi manylion cyswllt y pedair prif blaid wleidyddol:

Plaid Cymru: http://www.plaidcymru.org

Llafur Cymru: http://www.welshlabour.org.uk

Ceidwadwyr Cymru: http://www.welshconservatives.com

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: http://www.welshlibdems.org.uk

I gael rhestr lawn y pleidiau gwleidyddol cofrestredig, ewch i: www.electoralcommission.org.uk

Dylai hwn fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymgeiswyr sydd â diddordeb i gynrychioli un o'r pleidiau gan fod angen iddynt gael tystysgrif awdurdodedig gan swyddog enwebu'r blaid, yn ogystal â chael eu henwebu'n swyddogol gan 10 etholwr cofrestredig yn y ward lle maent yn dymuno sefyll. Cofiwch mai pobl gyffredin sy'n sefyll mewn etholiadau yn eu cyngor lleol ac mae gan bobl sy'n ymwneud â grwpiau trydydd sector ddigonedd o brofiad o anghenion eu cymuned leol ac maent mewn sefyllfa ddelfrydol i ystyried dod yn gynghorydd lleol.

Gallai'r pleidiau gwleidyddol fod yn bwynt dechrau defnyddiol i bobl sy'n dymuno cysylltu ag ymgeiswyr at ddibenion lobïo neu ddylanwadu, ond cofiwch fod nifer helaeth o ymgeiswyr yn Annibynnol o unrhyw gysylltiad gwleidyddol, felly mae llawer yn anoddach dod o hyd i ffyrdd o gysylltu â hwy. Yr ateb amlwg yw gofyn i'ch cyngor lleol am restr o ymgeiswyr wrth i'r etholiad nesáu.

Os hoffech ragor o wybodaeth am strwythur a swyddogaethau cynghorau lleol Cymru a sut i ddylanwadu arnynt, ewch i wefan Lleisiau dros Newid Cymru lle cewch afael ar ystod eang o wybodaeth ar sut mae gwleidyddiaeth yn gweithio a sut i ymgysylltu'n effeithiol â'r sawl sy'n llunio penderfyniadau.